# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cyflwyno gorchymyn cyfreithiol sef Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) - ar gyfer ardaloedd penodol yn Nghaernarfon, Pwllheli a Cricieth. |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) i ymdrin â niwsans(au) neu broblem(au) penodol mewn mannau penodol.<br><br>Mae'n cael ei ystyried fel un ffordd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn rhai ardaloedd yn Caernarfon, Pwllheli a Cricieth. Bydd yn cynnwys 3 math o ymddygiad gwrthgymdeithasol a waherddir gan y gorchymyn, ac y gellir eu gorfodi fel gweithredoedd troseddol mewn rhai amgylchiadau. Y 3 ymddygiad bydd yn rhan o'r gorchymyn yw: 1) |

ymddygiad sy'n achosi aflonyddu, braw, niwsans neu drallod. 2) Yfed alcohol os yw person cymeradwy yn gofyn iddynt stopio, 3) loetran mewn cyflwr o feddwdod.

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Daron Owens, Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Fersiwn 1 21.07.23 (cyn cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus)
Fersiwn 2 yw hwn– 6.6.2024 (wrth ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad)

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Heddlu Gogledd Cymru
Cynghorau Tref Caernarfon, Pwllheli a Cricieth
Aelodau Lleol sy'n gyfrifol am yr ardaloedd dan sylw
Aelodau Seneddol sy'n gyfrifol am yr ardaloedd dan sylw
Y cyhoedd a chyrff â diddordeb
Y Cabinet

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Cymerodd ymgynghoriad gyhoeddus le rhwng 26.2.24 a 14.3.24, cyfnod o 6 wythnos. Holiadur ar-lein oedd y dull, ond hefyd fe fu cyfle i bobl wneud cais am gopi papur, llythyru ni, e bostio neu ffonio i roi adborth.

Rhoddwyd nifer o hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfnod yr ymgynghori. Rhannwyd negeseuon am yr ymgynghoriad ar cyfryngau'r Heddlu a'r Cynghorau Tref. Yn dilyn datganiad i'r Wasg, rhoddwyd sylw a chyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad gan nifer o gyhoeddiadau.

Drwy gydol y broses o ystyried y bwriad i gyflwyno GDMC, bu nifer fawr o drafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, megis Aelodau Lleol a Seneddol, a'r Cynghorau Tref.

Yn unol a'r canllawiau, cysylltwyd hefyd a'r Comisiynydd yr Heddlu a'r Prif Gwnstabl am sylwadau.

Fe dderbyniwyd 112 o ymatebion cyflawn i'r holiadur.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Mae'r rhan helaeth o'r ymatebion daeth o'r ymgynghoriad yn datgan cefnogaeth at y bwriad.

O ystyried canlyniadau'r ymgysylltu, daethpwyd i'r casgliad fod y gefnogaeth ar gyfer cyflwyno GDMC yn gryfach nac unrhyw wrthwynebiad, ac mae gwybodaeth ddigonol i gydnabod fod nifer o bobl yn bryderus am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardaloedd yn Caernarfon, Pwllheli a Cricieth.

Ymysg y sylwadau, ddaru rhai nodi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig a blant a phobl ifanc, ac roedd cyfeiriad tuag at pobl fregus (o bosib) eraill, sef phobl gyda problemau iechyd meddwl neu camddefnyddio cyffuriau/alcohol. Nid oedd unrhyw batrwm i'w adnabod parthed nodweddion cydraddoldeb.

Wrth ystyried yr effaith posib ar y Iaith Gymraeg, nodwyd 60% ymateb 'niwtral'. Roedd 23% yn teimlo y byddai effaith positif sylweddol, a 8% yn nodi effaith bositif fychan. Roedd gweddill yr ymatebion (oddeutu 7%) yn nodi naill ai 'dim ateb', neu effaith negyddol. Roedd y sylwadau yma yn ymwneud a diffyg darpariaeth i bobl ifanc.

Gofynnwyd yn yr holiadur os oedd y cynnig yn debygol o gael effaith (o ryw fath) ar bobl yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. I'r rhai atebwyd y cwestiwn yma, nododd 33 'na/dim yn berthnasol' a 33 'ie'.

O ran effaith bosib, nodwyd y byddai'n gwneud yr ardal yn le mwy pleserus a llai bygythiol i bawb, a bydd pobl yn teimlo'n saffach wrth ddefnyddio trafnidiaeth cyhoeddus yn enwedig. Teimlwyd hefyd y byddai effaith bositif i'r cynnig, drwy ddull addysgiadol a creu ymdeimlad o falchder yn y gymuned.

Wrth ystyried effeithiau negyddol posib, nodwyd pryder am gyfyngu fynediad i ardaloedd penodol a lleihau cyfleon i gymdeithasu. Roedd ambell i sylw yn nodi fod angen deall anghenion a cynnig cefnogaeth i bobl di-gartref, pobl yn ymwneud a camddefnyddio sylweddau neu pobl a problemau iechyd meddwl. Teimlwyd fod angen mynd i'r afael a beth sydd yn achosi'r problemau yma yn lle cyntaf. Ar y llaw arall, nodwyd hefyd fod angen sicrhau ymateb gadarn i ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwneud yn glir nad yw'n dderbyniol.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

| |
|---|
| Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno llawer iawn o dystiolaeth ddogfennol sydd yn manylu y lefelau a mathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd yma. Rydym hefyd wedi derbyn datganiadau gan breswylwyr a busnesau cyfagos yn esbonio'r effaith negyddol mae hyn yn ei gael. Maent hefyd wedi dangos nad yw'r grymoedd gorfodi presennol yn addas i ymdrin â'r materion hyn, sef y rheswm dros fod angen gorchmynion newydd. Roedd y Cynghorau Tref o'r un farn ac yn pryderu'n enfawr am effaith yr ymddygiad yma ar eu trefi. |

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Nac oes |

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd casineb hiliol, a gwaharddiad cyntaf y gorchymyn yn arbennig. |
| **Anabledd** | Positif | Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd casineb anabledd yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn.<br><br>Disgwylir mai nifer fach o bobl a fydd yn cyrraedd y trothwy a fydd yn arwain at arestio. I'r sawl a gaiff ei arestio, mae gan yr Heddlu weithdrefnau i gynnig ymyraethau llesiant yn y ddalfa a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys agweddau iechyd meddwl, anabledd dysgu, niwroamrywiaeth ac anghenion penodol unigolyn. |
| **Rhyw** | Positif | Mae merched wedi nodi eu bod yn teimlo'n anniogel yn yr ardaloedd yma. Byddwn yn rhagweld y bydd gorchymyn yn arwain at ferched yn teimlo'n saffach. |

| | | |
|---|---|---|
| **Oedran** | Positif | O'r dystiolaeth darparwyd ac o fewn ymatebion yr ymgynghoriad, gwelwn fod llawer o bryderon y cyhoedd wedi'i selio ar ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan blant a phobl ifanc, ond nid nhw yn unig.<br><br>Bydd y gorchymyn yn cael effaith bositif i sawl oedran, ond yn enwedig wrth gysidro'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi fod pobl oedrannus yn teimlo'n ofnus wrth ddefnyddio trafnidiaeth cyhoeddus neu yn ymweld a'r ardaloedd. Yn yr un modd bydd y gorchymyn yn gwella canfyddiadau o ddiogelwch i bobl ifanc yn teithio neu'n defnyddio'r mannau cyhoeddus yma. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd casineb cyfeiriadedd rhywedd, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif | Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd casineb crefydd neu gred, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd casineb ailbennu rhywedd, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Mae merched wedi nodi eu bod yn teimlo'n anniogel yn yr ardaloedd yma. Byddwn yn rhagweld y bydd gorchymyn yn arwain at ferched beichiog a mamau newydd yn teimlo'n saffach. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | dim | Dim |
| **Yr iaith Gymraeg** | dim | Dim effaith – sicrhau fod unrhyw arwyddion yn y Gymraeg yn gyntaf yn unol a pholisi iaith y Cyngor |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif / negyddol | Roedd ystod eang o sylwadau wedi'i ddarparu am y nodwedd hyn (gwelwch uchod). Mae'r mater yma yn un goddrychol, ac gallwn ddehongli fod potensial am effaith bositif a negyddol, yn ddibynnol ar bersbectif ac amgylchiadau penodol.<br><br>O ran y potensial effaith bosif byddai'n gwneud yr ardal yn le mwy pleserus a llai bygythiol i bawb, a creu ymdeimlad o falchder yn y gymuned.<br><br>O ran y potensial effaith negatif roedd pryder am y posibilrwydd o gyfyngu mynediad i ardaloedd a lleihau cyfleon i gymdeithasu, a cael effaith anghyfartal ar bobl a problemau iechyd meddwl neu yn camddefnyddio sylweddau. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Ydi, am fod y gorchymyn yn targedu ymddygiad sy'n aflonyddu yn benodol - gall hyn gynnwys trosedd casineb o bob math (yr holl nodweddion uchod) |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Ydi, am fod y gorchymyn yn targedu ymddygiad sy'n aflonyddu yn benodol - gall hyn gynnwys trosedd casineb o bob math (yr holl nodweddion uchod). Gobeithio bydd hyn yn golygu annog pobl gyda nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yn yr ardaloedd yma. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Ydy, gan fod gorfodaeth yn dechrau gydag ymgysylltu ac addysg. Os yw hyn yn effeithiol, mae'n atal yr ymddygiad rhag gwaethygu ac angen ymateb cyfreithiol. Mae, felly, yn ceisio gwella dealltwriaeth person o'r effaith y mae ei ymddygiad yn ei gael ar aelodau eraill y cyhoedd ac ati. Un o'r bwriadau yw gwneud ardaloedd penodol yn Caernarfon, Pwllheli a Cricieth yn ofod cyhoeddus mwy diogel a braf i bob aelod o'r gymuned. Bydd yn meithrin perthnasau da drwy hybu cymdeithasu yn yr ardaloedd yma. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Credwn nad yw hyn yn berthnasol i'r cynnig yma gan nad yw'r bwriad yn cael effaith o'r gwbl ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, nac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

| |
|---|
| |

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Fel yr uchod |

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae sylw dyledus wedi'i roi i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd. Yn benodol, rhoddwyd sylw i hyn yn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Fedran ddod i gasgliad fod y mater yma yn un goddrychol. Gallwn ddehongli fod potensial am effaith bositif a negyddol, yn ddibynnol ar bersbectif ac amgylchiadau penodol.

O ran yr effeithiau bositif sydd wedi'i hadnabod, byddai'n gwneud yr ardaloedd yn lefydd mwy pleserus a llai bygythiol i bawb, a bydd pobl yn teimlo'n saffach wrth ddefnyddio trafnidiaeth cyhoeddus yn enwedig. Bydd ddull addysgiadol a creu ymdeimlad o falchder yn y gymuned hefyd yn effaith bositif.

Yn ôl Adran Trafnidiaeth y Llywodraeth (2019) mae trafnidiaeth yn hwylusydd pwysig ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol a llesiant, sydd yn gallu effeithio ar ganlyniadau economaidd a chymdeithasol, ac felly anghydraddoldeb. Mae perthynas rhwng incwm a'r math o drafnidiaeth a ddefnyddir. Mae'r rhai ar incwm is yn defnyddio bysiau yn fwy na'r rhai ar incwm uwch, a'r rhai ar incwm uwch yn defnyddio ceir a threnau yn fwy na'r rhai ar incwm is. Mae'r tystiolaeth a ddarparwyd yn nodi prif safleoedd bws fel ardal o bryder, ac yn dangos fod nifer yn osgoi trafnidiaeth cyhoeddus gan eu bod yn teimlo'n ofn oherwydd ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Bydd y cynnig yn mynd i'r afael a'r hyn gan fod yr ardaloedd yma yn rhan o'r GDMC arfaethedig.

Transport and inequality (publishing.service.gov.uk)

Y potensial effaith negyddol a adnabuwyd oedd cyfyngu mynediad i ardaloedd penodol a lleihau cyfleon i gymdeithasu. Mae'n bosib gall y gorchymyn effeithio yn anghyfartal ar y rhai sydd yn di-gartref, yn camddefnyddio sylweddau neu pobl a problemau iechyd meddwl.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau**

**canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Fel nodwyd uchod, mae cyfeiriad wedi'i wneud tuag at pobl fregus (o bosib) sef pobl a problemau iechyd meddwl neu camddefnyddio sylweddau. Adnabuwyd y gallai'r gorchymyn yn effeithio'n anghyfartal ar yr unigolion yma. Yn unol a'r canllawiau statudol, mae ystyriaeth wedi'i roi tuag at warchod unigolion bregus, o ran y risgiau o dadleoli a'r gwerth o weithio mewn partneriaeth i ddatrys problemau.

Mae gwybodaeth helaeth am y cymorth sydd ar gael ar ein tudalennau we. Yn ogystal rydym yn cyfathrebu gyda'r tîm ymestyn allan o fewn y Gwasanaeth Iechyd pan fu digwyddiadau penodol yn ymwneud a camddefnyddio sylweddau i sicrhau fod yr unigolion yn wybodus i'r gwasanaeth. Deallwn fod hyn yn sefyllfa rwystredig, ac dim ond cymaint sydd yn bosib gyda yfwyr sydd yn wrthwynebol i newid / *'change resistant'.* Mae rhwystrau o gwmpas caniatâd i rannu manylion personol, a'r awydd angenrheidiol i ymgysylltu a gwasanaethau yn y lle cyntaf.

Bwriad y gorchymyn yw mynd i'r afael ar ymddygiad gwrth gymdeithasol sydd yn cymryd lle mewn mannau penodol ac yn effeithio ar breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr. Bydd yr ardaloedd yn parhau i fod yn agored i bawb, oni bai eu bod yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn effeithio'n negyddol ar y mwyafrif. Wrth bwyso a mesur yr effeithiau posib o'r gorchymyn, casglwn fod y bwriad yn bennaf yn lleihau anghyfartaledd, wrth wneud yr ardaloedd arfaethedig yn saffach i **bawb.**

**3.7**
**Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal? (Rhowch grynodeb o'ch darganfyddiadau os ydych wedi ystyried hyn eisoes fel rhan o'r broses sgrinio)**

Mae'r cynnig yn diwallu gofynion y Ddeddf fel y ganlyn:
**5 ffordd o weithio**
**Hirdymor** Fe fydd y gorchymyn ei hun yn parhau mewn lle am 3 mlynedd, gyda'r bwriad o newid agweddau pobl tuag at eu hymddygiad mewn mannau cyhoeddus. Yn y tymor hirach, gobeithir y bydd hyn yn cyfrannu tuag at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau, a dealltwriaeth o'r angen i gysidro'r effaith ar eraill.
**Atal** Fe fydd gorchymyn o'r math yn helpu i leihau'r lefel o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned, ac yn help i atal y sefyllfa rhag dirywio yn y dyfodol agos.
**Integreiddio** Tuag at uchelgais y Cyngor o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu. Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at amcanion yr Heddlu, sef i leihau troseddau a gwneud y strydoedd yn fwy saff i drigolion.
**Cydweithio** Mae'r datblygiad yma yn rhan o gydweithio rhwng y Cyngor a'r Heddlu yn benodol. Mae Cynghorau Tref ac Aelodau Seneddol wedi bod yn rhan o'r trafodaethau, ac ystyriwyd barn y cyhoedd yn dilyn yr ymgynghoriad.

**Cynnwys** Mae'r Heddlu, Cynghorau Tref ac Aelodau Leol wedi bod ynghlwm a'r trafodaethau. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a wedi ystyriaeth, gwnaed mân ddiwygiadau i'r cynlluniau o ganlyniad i'r sylwadau darparwyd.

**<u>7 nod llesiant</u>**

**Cymru lewyrchus** yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur. Mae'r ardaloedd dan sylw wedi'i adnabod gan dystiolaeth gan yr Heddlu a'r cyhoedd fel lleoliadau o bryder am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn cyd-destun o alw cystadleuol. Mae'r ardaloedd penodol wedi adnabod fel yn ymarferol a synhwyrol, yn dilyn trafodaethau o beth sydd yn hylaw i blismona.

**Cymru gydnerth** Mae cydnabyddiaeth cynyddol o'r cysylltiad rhwng amgylchedd iach a gwell iechyd a llesiant. Un o'r bwriadau yw gwneud ardaloedd penodol yn Caernarfon, Pwllheli a Cricieth yn ofod cyhoeddus mwy diogel a braf i bob aelod o'r gymuned.

**Cymru sy'n fwy cyfartal** Mae grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn dal o dan anfantais. Mae'r cynnig yn targedu ymddygiad sy'n aflonyddu yn benodol - gall hyn gynnwys trosedd casineb o bob math (nodweddion gwarchodedig). Rhoddwyd cyfle cyfartal i bobl gymryd rhan wrth ystyried y penderfyniad yma, drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cynnig wedi'i selio ar y cydnabyddiaeth o effaith anghydraddoldebau iechyd, yn cynnwys profiadau troseddol. Un o'r bwriadau yw gwneud ardaloedd penodol yn Caernarfon, Pwllheli a Cricieth yn ofod cyhoeddus mwy diogel a braf i bob aelod o'r gymuned.

**Cymru Iachach** Mae'r cynnig yn ymateb i'r nod llesiant yma o ran cefnogi cymdeithas lle mae llesiant pobl cystal â phosibl, lle mae atal yn ganolog. Mae'r tystiolaeth ddarparwyd yn dangos yn glir yr effaith negyddol mae ymddygiad yn cael ar gymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn yr ardaloedd yma. Mae'n achosi braw ac ofn, ac yn gwneud i bobl deimlo'n anghyfforddus, ac hyd yn oed yn arwain at bobl i osgoi rhai lleoliadau yn gyfan gwbl. O'r ymatebion i'r holiadur cyhoeddus, casglwn fod nifer o bobl yn bryderus am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bwriad y cynnig yw mynd i'r afael a hyn.

**Cymru o gymunedau cydlynus** Mae'r cynnig yn cefnogi y nod o gymunedau atyniadol, hyfyw a diogel yn ogystal a llesiant cymunedol.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** Mae gan Caernarfon, Pwllheli a Cricieth gymunedau â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae ymddygiad gwrth gymdeithasol yn cael effaith negyddol ar breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr. Mae'r cynnig yn ceisio gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg yn yr ardaloedd yma.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** Gall ymwelwyr o bob cwr o'r byd gall ei effeithio gan ymddygiad gwrthgymdeithasol pan yn ymweld a'r ardaloedd yma. Credwn fod y cynnig yn gwneud cyfraniad bositif i lesiant byd-eang.

**3.8**

**Er mwyn cydymffurfio gyda deddf Lluoedd Arfog 2022, beth yw effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd, o ran gwasanaethau tai ac addysg?**

Dim effaith / amherthnasol

| |
|---|
| |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Gobeithio y bydd yn cael effaith gadarnhaol o ran:<br>Profiad y cyhoedd o weithio/byw/ymweld â Caernarfon, Pwllheli a Cricieth,<br>Bydd pobl yn gweld llai o YGG, a<br>Byddent yn teimlo'n fwy diogel pan fyddant allan yn eu cymuned |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nid oes unrhyw beth wedi'i adnabod |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | **X** |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Amherthnasol - nid oes unrhyw beth wedi'i adnabod |

### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Amherthnasol - nid oes unrhyw beth wedi'i adnabod

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Fe fydd yr Heddlu yn paratoi adroddiadau monitro ar orfodaeth o'r gorchymyn a byddwn yn parhau i dderbyn data trosedd cyffredinol. Byddwn yn gweithredu ar y wybodaeth fel sydd i'w angen ac yn ail edrych ar y asesiad yn amserol.